Docusign Envelope ID: 55627830-0CED-451C-A899-10BF2BCAB2FF

# GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN
# (LLWYBR TROED CYHOEDDUS 36/14, PONT-IETS, LLANELLI)
# GWAHARDDIAD DROS DRO AR GERDDWYR 2025

---

**GAN FOD** Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor"), sef yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y darn hwnnw o Lwybr Troed Cyhoeddus 36/14 a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, wedi'i fodloni y dylid cyfyngu ar gerddwyr ar hyd y darn hwnnw o'r llwybr troed am resymau diogelwch cyhoeddus.

**YN AWR** gan hynny, mae'r Cyngor, gan arfer ei bwerau o dan Adran 14(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 a'r holl bwerau galluogi eraill, trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

> Ni chaiff unrhyw gerddwyr fynd ar hyd y darn o Lwybr Troed Cyhoeddus 36/14 o fan yn Llwyncrwn, Pont-iets yng nghyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans SN47480827 i gyfeiriad y gogledd-orllewin hyd at y gyffordd â ffordd y B4317 yng nghyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans SN47360839.

Mae ffordd amgen i gerddwyr wedi'i ddarparu drwy gydol y cyfnod y bydd y llwybr ar gau, fel y nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar y 10fed o Dachwedd 2025 a gellir cyfeirio ato fel "Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llwybr Troed Cyhoeddus 36/14, Pont-iets, Llanelli) Gwaharddiad Dros Dro ar Gerddwyr 2025".

Bydd y Gorchymyn yn parhau mewn grym am gyfnod o chwe mis neu hyd nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, pa un bynnag sydd hwyrach.

Docusign Envelope ID: 55627830-0CED-451C-A899-10BF2BCAB2FF

# YR ATODLEN

| **Colofn 1**<br><br>**Cyfeirnod a Disgrifiad Hawl Tramwy Cyhoeddus** | | **Colofn 2**<br><br>**Disgrifiad o'r Ffordd Amgen** |
|---|---|---|
| Llwybr Troed Cyhoeddus 36/14 | O fan yn Llwyncrwn, Pont-iets yng nghyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans SN47480827:<br><br>Gan fynd i gyfeiriad y gogledd-orllewin hyd at y gyffordd â ffordd y B4317 yng nghyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans SN47360839.<br><br>**Hyd:** 175 metr | O fan yn Llwyncrwn, Pont-iets yng nghyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans SN47480827:<br><br>Gan fynd i gyfeiriad y gorllewin ar hyd Heol Llanelli (ffordd y B4309) i gyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans SN47410826, cyn mynd i gyfeiriad y gogledd ac yna i'r gorllewin ar hyd trac drwy le chwarae i ymuno â ffordd y B4317 yng nghyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans SN47280832, yna parhau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain hyd at y gyffordd â Llwybr Troed Cyhoeddus 36/14 yng nghyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans SN47360839.<br><br>**Hyd:** 375 metr |

Docusign Envelope ID: 55627830-0CED-451C-A899-10BF2BCAB2FF

Rhoddwyd Sêl Gyffredin

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

ar y ddogfen hon

ar y 5ed o Dachwedd 2025

ym mhresenoldeb:


Steven P Murphy

........................................................................................

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**

19444




**PUBLIC FOOTPATH 36/14, PONTYATES, LLANELLI**
**TEMPORARY PROHIBITION OF TRAFFIC ORDER 2025**

**LLWYBR TROED 36/14,PONT-IETS, LLANELLI**
**GORCHYMYN GWAHARDDIAD DROS DRO AR DRAFFIG 2025**

**Path temporarily closed**
**Llwybr ar gau dros dro**

**Alternative route**
**Llwybr arall**

**Scale: 1:1500 @ A4**

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023377 © Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey 100023377